**CYPE(6)-06-22 - Papur i'w nodi 15**
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cais am wybodaeth am bresenoldeb disgyblion a hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol**
**Ymateb gan Gwynedd**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau presenoldeb wythnosol, ond nid yw rhai grwpiau o blant y mae'r pandemig wedi effeithio'n arbennig o andwyol ar eu presenoldeb wedi'u cynnwys yn y data hyn.**

- Swyddog lles ynghlwm yn mhob Ysgol Uwchradd penodol a chlwstwr ysgolion cynradd
- Adroddiad wythnosol yn cael ei echdynnyn o fas data ONE yn wythnosol.
- Ysgolion wedi eu hannog i drafod unrhyw fater o bryder yn fuan gyda'r swyddogion Lles er rhoi cefnogaeth ac bod neges wedi rhaeadru gyda'r rhieni bod disgwyliad i unigolion o oed statudol Ysgol i fynychu.
- Ymweliadau cartref
- Ffocws ar les emosiynol yr unigolyn. Codi ymwybyddiaeth o faterion sydd wedi amlygu yn dilyn y cyfnodau clo, materion o fewn y cartref ac effaith hirfaith hunan ynysu ac ar angen i fynd i afael yn y achosion yma.
- Trafodaethau rheolaidd yn aml asianteithiol er adnabod y gweithiwr allweddol er i beidio gorlethu drwy ymweliadau cartref, ( 1 swyddog yn cyd-lynu unrhyw ddarpariaeth gyda'r teulu)
- Adborth a trafodaethau aml
- Cyd weithio gyda rhanddeiliad er cynnig gwasanaeth ymestyn allan gyda'r nod o ail ymgysylltu y disgyblion sydd yn profi presenoldeb isel/gwan
- Addasiadau rhesymol i amserlen a hyn yn cael eu fonitro yn fisol

**Unrhyw ddata sydd gennych ynghylch nifer y disgyblion hyn yn ogystal â'u cyfraddau absenoldeb.**

39 o ddisgyblion sydd yn amlygu gyda  chanran isel o ran presenoldeb mewn perthynas ar pandemig.

**Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion**

Mae'r Uned Gefnogi Llywodraethwyr yn cynnig ystod o gefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion Gwynedd,  gan gynnwys hyfforddiant amrywiol i Lywodraethwyr sy'n

berthnasol i’w rôl nhw a cyngor a chefnogaeth arbenigol ar faterion unigol e.e. sut i ddelio â cwyn, y broses gormodedd ayb. Rydym hefyd yn cydweithio â Consortiwm GwE sy’n darparu hyfforddiant ‘cwricwlaidd/addysgol’ i Lywodraethwyr e.e. hyfforddiant i Lywodraethwyr ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent hefyd yn darparu sesiwn hyfforddiant/cefnogaeth a chyngor i Gyrff llywodraethol cyn arolwg Estyn